Pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales Committees

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid/Arweinydd y Tŷ

23 Awst 2018

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet ac Arweinydd y Tŷ

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20**

Fel y gwyddoch, mae ein tri Phwyllgor yn cydweithio fel rhan o'n gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft. Mae hyn mewn ymateb uniongyrchol i alwadau gan randdeiliaid yn ystod ymgysylltiad rhagarweiniol rhanddeiliaid â'r Pwyllgor Cyllid ar gyllideb 2019/20.

Roedd hyn yn cynnwys angen i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft. At hynny, galwodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd am ragor o waith craffu ar ansawdd asesiadau effaith.

Gan fod hyn yn cyd-fynd â materion y mae ein holl bwyllgorau wedi'u hystyried yn ein gwaith craffu priodol ar y gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf, rydym yn cynnal cyfarfod ar y cyd ar 15 Tachwedd i'w trafod ymhellach. Rydym yn ddiolchgar bod y ddau ohonoch wedi cytuno i ddod i'r sesiwn hon. Cyn y sesiwn, cofiwch roi papur i ni sy'n nodi'r canlynol:

- **dull yr asesiad effaith integredig strategol** eleni;
- **gwelliannau penodol a wnaed i'r asesiad effaith integredig strategol** ers **adolygiad 2016 o asesiadau effaith Llywodraeth Cymru**;
- sut y llywiodd yr **Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol** y ffordd y cynhaliwyd yr asesiad effaith integredig strategol eleni;

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Pwyllgorau@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Committees@assembly.wales
0300 200 6565

- sut y mae **hawliau plant** wedi'u hystyried a'u hasesu ar gyfer y gyllideb ddrafft hon, yn unol â dyletswydd sylw dyledus Llywodraeth Cymru i CCUHP (i gynnwys manylion am benderfyniadau a wnaed mewn perthynas â darparu asesiad annibynnol o'r effaith ar hawliau plant, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'r rhesymeg sylfaenol am y penderfyniadau hynny);
- sut roedd effaith benthyciadau Llywodraeth Cymru a phwerau treth incwm newydd yn llywio'r asesiad effaith integredig strategol;
- sut y mae'r asesiad effaith integredig strategol yn dangos effaith ariannol penderfyniadau Llywodraeth Cymru;
- sut y cafodd **Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg** ynghyd ag **Adolygiad Cyflym o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20**, a wnaeth argymhellion penodol ynghylch buddsoddi cyfalaf, effaith ar yr asesiad effaith integredig strategol eleni.

Rydym yn cydnabod bod materion sy'n ymwneud ag asesu effaith y tu hwnt i gylch gwaith ein tri phwyllgor. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio y bydd y sesiwn hon yn llywio gwaith craffu ar faterion cyllidebol trawsbynciol yn y dyfodol.

Byddai'n ddefnyddiol cael eich papur erbyn 25 Hydref.

Yn gywir

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English